



Polisi Arholiadau

Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol: 28 Mawrth 2019

Llofnod y Cadeirydd: _____

Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol: 26 Mawrth 2020

Llofnod y Cadeirydd: _____

Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol:

Llofnod y Cadeirydd: _____

POLISI ARHOLIADAU

Polisi Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yw rhoi cymwysterau ffurfiol i gymaint o ddisgyblion a phosibl. Mae disgyblion yr ysgol yn sefyll arholiadau Cydbwyllgor Addysg Cymru ar gyfer y mwyafrif mawr o gyrsiau Llwybrau Mynediad, TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch. Cynigir ychydig o gyrsiau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch gan gyrff dyfarnu EDEXCEL ac AQA hefyd. Mae'r ysgol yn darparu cyrsiau galwedigaethol gan gyrff dyfarnu eraill yn ogystal a'r rhai a enwir uchod. Ar gyfer asesu dyfarnu Sgiliau Hanfodol Cymru defnyddir gweithdrefnau CBAC.

Arholiadau Allanol CA4

Polisi'r ysgol yw cynnig cymwysterau priodol drwy arholiadau allanol addas i bob disgybl sydd ar y gofrestr ar derfyn CA4. Gan fod cyrsiau Llwybrau Mynediad a TGAU yn parhau am ddwy flynedd, disgwylir i'r disgyblion ddilyn y cwrs drwy Flynyddoedd 10 ac 11. Dim ond mewn achos eithriadol y bydd disgybl yn peidio a pharhau air cwrs arholiad, a hynny trwy drefniant a Phennaeth yr Adran, Pennaeth Blwyddyn, y Pennaeth a'r rhieni. Nid yw'r ysgol yn darparu arolygaeth unigol i ddisgybl sydd wedi gadael cwrs arholiad. Os yw pwnc yn cael ei gynnig yn yr ysgol, ni roddir caniatad i ddisgybl sy'n dilyn y cwrs yn allanol i gofrestru yn enw'r ysgol ond rhoddir caniatad i'r disgybl sefyll yr arholiadau yn yr ysgol ond ei bod hi / ei fod of yn talu am yr arholiadau hynny. Os yw disgybl yn gwneud cais i ddilyn cwrs sydd ddim yn cael ei gynnig yn yr ysgol, rhoddir caniatad i'r disgybl i gofrestru ar gyfer arholiadau gyda'r ysgol.

Arholiadau Allanol CA5

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion i gyrsiau ôl-16 ar sail trafodaeth gyda Phennaeth y Chweched, Pennaeth Cynorthwyol sydd yn gyfrifol am y cwricwlwm, a'r Pennaeth, ar ôl eu canlyniadau diwedd CA4. Mae cyrsiau Uwch Gyfrannol yn parhau am flwyddyn, ac yna cyflwynir cyrsiau Safon Uwch i fyfyrwr llwyddiannus yn yr all flwyddyn. Mae'r cyrsiau galwedigaethol yn tueddu i barhau am y ddwy flynedd. Os yw pwnc yn cael ei gynnig yn yr ysgol, ni roddir caniatad i ddisgybl sy'n dilyn y cwrs yn allanol i gofrestru yn enw'r ysgol nac ychwaith i sefyll yr arholiadau yn yr ysgol. Os yw disgybl yn gwneud cais i ddilyn cwrs sydd ddim yn cael ei gynnig yn yr ysgol, rhoddir caniatad i'r disgybl i gofrestru ar gyfer arholiadau gyda'r ysgol.

Taliadau

Yr ysgol sydd yn gyfrifol am dalu tal cofrestru pob disgybl ar gyfer sefyll arholiadau allanol. Nid yw'r ysgol yn talu am ailsefyll unrhyw uned i unrhyw ddisgybl (os am fwy o fanylder gweler 'Polisi Codi Tal ac Incwm Adrannol').

Ar gyfer pob disgybl / arholiad dylai'r arferion canlynol bodoli:

- Dylid sicrhau bod y disgybl wedi dilyn gwersi perthnasol i'r arholiad ac wedi dangos presenoldeb da. Os yw absenoldeb disgybl yn peri gofid yna bydd angen ystyried yn ofalus y rhesymau dros yr absenoldebau a'r doethineb o sefyll arholiad os nad yw'r gwaith dysgu wedi ei gwblhau.
- Dylid sicrhau bod y gwaith cwrs a gofynion eraill y cwrs yn cael eu bodloni gan y disgyblion i eithaf eu gallu.
- Dylid sicrhau bod y disgybl yn deall y gofynion asesu, gan gynnwys y papurau arholiad ac unrhyw waith cwrs.
- Dylid sicrhau bod y disgybl yn ymwybodol o unrhyw ddyddiadau cau ar gyfer gwaith cwrs a phwysigrwydd bodloni'r rhain.

Darpariaeth ADY ar gyfer Arholiadau allanol

Cyfrifoldeb yr Adran Addysg Anghenion Arbennig yw sicrhau Trefniadau Mynediad i ddisgyblion sydd ar y gofrestr ADY gan sicrhau cywirdeb. Mae'n ddyletswydd yna i roi'r wybodaeth ymlaen llaw i'r Swyddog Arholiadau i sicrhau trefniadau ystafelloedd a goruchwylwyr.

Cynnal arholiadau

- Y Pennaeth sydd a'r penderfyniadau terfynol.
- Cyfrifoldeb yr ysgol yw sicrhau tawelwch a thegwch i'r disgyblion i eistedd eu harholiadau.
- Cyfrifoldeb y Swyddog Arholiadau â'r Pennaeth Adran yw sicrhau cywirdeb cofrestriadau, danfon y papurau arholiadau, canlyniadau ac unrhyw ohebiaeth gyda'r Byrddau Arholi.
- Cyfrifoldeb y Swyddog Arholiadau yw trefnu eisteddiad holl arholiadau allanol yn unol â'r rheoliadau gan y cyrff dyfarnu.
- Cyfrifoldeb y Swyddog Arholiadau yw sicrhau bod gofynion disgyblion Anghenion Addysgol Arbennig yn cael eu bodloni mewn ymgynghoriad â'r cydlynnydd ADY.
- Cyfrifoldeb y Swyddog Arholiadau yw sicrhau bod papurau arholiadau cywir, digonol ar gael i'r disgyblion.
- Cyfrifoldeb y disgybl yw dilyn y ddogfen 'Canllawiau ar gyfer Arholiadau Allanol' (derbynia pob disgybl copi o'r ddogfen).
- Cyfrifoldeb y disgybl yw sicrhau presenoldeb mewn arholiad allanol. (***Os yn sâl iawn ac yn methu dod i'r arholiad, er mwyn cryfhau achos amgylchiadau arbennig gyda'r Bwrdd Arholi yna disgwylir i'r disgybl dderbyn llythyr meddyg os nad oes tâl ynghlwm ag e***).

Gwasanaeth wedi'r canlyniadau

Yn unol â gofynion y ddogfen *Cod Ymarfer (Ebrill 2007)* dilynir y drefn ganlynol:

- Gwneir yr ystod o wasanaethau sydd ar gael wedi'r canlyniadau yn hysbys i'r disgyblion, rhieni / gwarchodwyr / Pennaeth Adran.
- Mewn sefyllfa lle bydd rhywun yn dymuno dilyn y broses ymholi yn dilyn cyhoeddiad y canlyniad, rhaid i'r ceisiadau hynny ddilyn y drefn ganlynol:
 - Gwneud cais yn uniongyrchol i'r Swyddog Arholiadau
 - Dylid cyflwyno'r cais i'r Swyddog Arholiadau o fewn saith diwrnod o gyhoeddi'r canlyniadau. Gellir gwneud hyn trwy alwad ffôn, ond bydd angen cyfarfod er mwyn rhoi llofnod ar y cais. Bydd hyn yn dangos bodlonrwydd y disgybl i'r ymholiad a'i ddealltwriaeth o'r broses
 - Y Swyddog Arholiadau bydd yn prosesu'r cais.
 - Wedi derbyn ateb y Bwrdd Arholi i'r ymholiad, hysbysir y disgybl ohono.

Os nad yw'r disgybl yn fodlon gyda chanlyniad yr ymholiad bydd proses apêl y Bwrdd Arholi yn agored iddynt. Rhaid i hyn gael ei weithredu yn unol â threfniadau'r Bwrdd Arholi a fynegir yn y *Cod Ymarfer (2007)*.

Trefniadau Apêl am Aseidiadau Mewnol – gweler 'Polisi Apeliadau Mewnol Cymwysterau Allanol'.

Arholiadau Mewnol

Cyfrifoldeb y Swyddog Arholiadau yw trefnu holl arholiadau mewnol yr ysgol mewn ymgynghoriad gyda Phenathiaid Adran a'r Dirprwy.